Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

PECYN CYMORTH GARDDWYR

# DEDDFWRIAETH A RHYWOGAETHAU YMLEDOL




**Mae rhai planhigion sy'n ymledol wedi'u rhestru mewn deddfwriaeth.**

Yma rydym yn cyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth y dylai garddwyr fod yn ymwybodol ohonynt;

**Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)** a **Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1143/2014.**



Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# BETH SYDD ANGEN I ARDDWYR EI WYBOD

| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad | Rheoliad yr UE a Ddargedwir (1143/2014) |
| --- | --- |
| Prif gyfraith y DU sy'n gwarchod bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Mae'n ei gwneud yn anghyfreithlon plannu neu achosi i rywogaeth ymledol (estron) dyfu yn y gwyllt. Mae'r rhain wedi'u rhestru ar **Atodlen 9.** | Mae'n gwahardd rhai rhywogaethau ymledol (sy'n cael eu galw yn **Rhywogaethau o Bryder Arbennig**) rhag cael eu mewnforio, eu gwerthu, eu cadw neu eu tyfu. Mae'n blaenoriaethu atal rhywogaethau ymledol. |
| **Prif oblygiad i arddwyr domestig** | |
| Ni ddylech blannu nac achosi i unrhyw rywogaeth sydd wedi'i rhestru ar Atodlen 9 dyfu yn y gwyllt. Mae hyn yn cynnwys dympio gwastraff gardd neu bridd sy'n cynnwys y planhigion hyn. | Ni ddylech fewnforio, cadw, tyfu, gwerthu, rhoi i ffwrdd na rhyddhau unrhyw rywogaethau sydd wedi'u rhestru (nac unrhyw ran a all aildyfu, fel hadau neu doriadau). Mae Rhywogaethau o Bryder Arbennig wedi'u gwahardd rhag cael eu gwerthu. |
| **Rhywogaethau ymledol wedi'u rhestru yn eich gardd** | |
| Nid ydych chi'n torri'r gyfraith dim ond drwy gael rhywogaeth wedi'i rhestru ar eich tir - ond rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i'w hatal rhag lledaenu y tu hwnt i'ch ffin.<br><br>Gall awdurdodau fynnu eich bod chi'n eu tynnu o dan Orchymyn Rheoli Rhywogaethau. | Os yw Rhywogaeth o Bryder Arbennig eisoes yn tyfu yn eich gardd, ni ystyrir ei bod yn cael ei chadw na'i thyfu'n fwriadol ac nid ydych yn cyflawni trosedd.<br><br>Fodd bynnag, ni allwch blannu Rhywogaeth o Bryder Arbennig yn fwriadol ar eich tir, nac achosi i blanhigion presennol ledaenu'n fwriadol. |
| **Prynu neu werthu** | |
| Mae rhai planhigion **Atodlen 9** (rhywogaethau dŵr yn bennaf) wedi'u gwahardd rhag cael eu gwerthu yn Lloegr, ond gellir gwerthu eraill o hyd. Gwiriwch bob amser cyn prynu. | Mae pob **Rhywogaeth o Bryder Arbennig** wedi'u gwahardd rhag cael eu gwerthu o unrhyw le yn y DU. |

# BETH SYDD ANGEN I ARDDWYR EI WYBOD

| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad | Rheoliad yr UE a Ddargedwir (1143/2014) |
|---|---|
| **Symud neu waredu** | |
| Dim ond os yw ar gyfer gwaredu diogel neu os oes gennych chi drwydded y gallwch chi symud neu gludo planhigion wedi'u rhestru. Yng Nghymru, mae hyn yn cael ei wneud drwy **Gyfoeth Naturiol Cymru.** | Mae'r un peth yn berthnasol – dim ond o dan drwydded y caniateir symud neu waredu ar gyfer dinistrio neu ymchwil. |
| **Esiamplau o rywogaethau ymledol wedi'u rhestru** | |
| • **Pluen parot** (*Myriophyllum aquaticum*) | • **Parrot's feather** (*Myriophyllum aquaticum*) |
| • **Dail-ceiniog arnofiol** (*Hydrocotyle ranunculoides*) | • **Floating pennywort** (*Hydrocotyle ranunculoides*) |
| • **Coeden y nefoedd** (*Ailanthus altissima*) | • **Tree of heaven** (*Ailanthus altissima*) |
| • **Pidyn-y-gog melyn** (*Lysichiton americanus*) | • **Yellow skunk cabbage** (*Lysichiton americanus*) |
| • **Ffromlys chwarennog** (*Impatiens glandulifera*) – yn dod o dan y ddau. | |
| **Ble mae'n Berthnasol** | |
| Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gydag amrywiadau posibl e.e. rhestr rhywogaethau). | Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gydag amrywiadau posibl e.e. rhestr rhywogaethau). |
| **Cosbau** | |
| Gall torri'r gyfraith arwain at ddirwyon neu erlyn. Gall achosion difrifol arwain at ddedfryd o garchar. | Gall torri'r gyfraith arwain at ddirwyon, cymryd y planhigion, neu erlyn. |

# DEDDFWRIAETH A RHYWOGAETHAU YMLEDOL

## Beth mae hyn yn ei olygu i arddwyr

Nid yw pob rhywogaeth ymledol wedi'i chynnwys o dan ddeddfwriaeth. Felly mae'n bwysig Bod yn Ddoeth am Blanhigion.






**Am ysbrydoliaeth ar gyfer planhigion amgen sydd ddim yn ymledol, edrychwch ar y llyfrynnau hyn:**

**Sut i arddio heb blanhigion ymledol niweidiol a cadw pwll heb blanhigion ymledol niweidiol.**

**Darllen mwy am ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â rhywogaethau ymledol yma.**